CYNGOR CYMDEITHAS LLANFACHRAETH
COFNODION CYFARFOD 29ain MEDI 2020
A GYNHALIWYD YN FESTRI CAPEL PONT YR ARW LLANFACHRAETH.

PRESENNOL.
Nid oedd cyfarfod oherwydd coronafeirws.(Cysylltu dros ffon neu ebost)

YMDDIHEURIADAU.

CYNGHORWYR YN DATGAN DIDDORDEB. A FFURFLEN I'W ARWYDDO.

COFNODION 28ain GORFFENNF 2020 YN GYWIR. I'w sganio'n gyflym pan fydd y cyfarfodydd yn ailgychwyn.

CODI O'R COFNODION.

CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990.

1. FPL/2020/50. Cynllun Diwygiedig.
   Cais cynllunio hybrid ar gyfer dymchwel y garej / storfa bresennol ynghyd a codi garej / strofa newydd ar gyfer Gwenfa a chaniatad cynllunio amlinellol ar godi yn annedd ynghyd a manylion llawn mynedfa i gerbydau yn:-
   Gwenfa, Llanfachraeth.
   Dim gwrthwynebiad. Nid oedd gwrthwynebiad ar y gwreiddiol ym Mehefin. Lleoliad oedd ddim yn glir.

2. ENF/2020/150. Tor rheolaeth Cynllunio Honedig.
   Carafan a Tentiau yn:-
   Ty Newydd Green, Llanfachraeth.
   Swyddog Gorfodaeth dim yn gweld problem am ei fod yn aelod o'r Clwb Carafanio. Nid ydym yn son am y Clwb Carafan y rhifyn ydyw safle Campio a Motor Home a Portaloo yn yr ardd, ac mewn man peryglus.
   Mae'r Cyng Sirol John Griffith wedi cymryd y mater i fynnu i egluro y cefndir ac yn gofyn i'r Swyddog Gorfodaeth a oedd wedi ystyried y ffaith fod y safle ar gongl peryg ac yn arbennig tramwy teithio i fewn ac allan.

PENDERFYNIADAU.

3. HHP/2019/298. Llanfigael Barn, Llanfachraeth. Caniatad.

4. VAR/2020/24. Horizon. Gwella'r Priffordd. Valley i Wylfa. Caniatad.

GOHEBIAETH. CYNGOR SIR YNYS MON.

5. Swyddog Polisi.
   Datganiad. Canslio Ffair Borth oherwydd Coronafeirws. Derbyn.

6. Swyddog Polisi.
   Datganiad. Penderfyniad Hitachi – ergyd faer i economi yr Ynys. Derbyn ond yn somedig.

7. Swyddog Polisi.
   Cefnogi Lansiad ap Covid – 19 y GIG. Derbyn dim sylw.

8. Coronafeirws wedi'i gadarnhau mewn dau blentyn Ysgol Gynradd arall. Derbyn y wybodeth.

GOHEBIAETH (ARALL)

9. *Clercod a Cynghorau Uniongyrchol. Cylchgrawn. Derbyn.*

10. Staff Cymorth Rhun ap Iorwerth AS.
    Cyflymder 20MYA. Cymdogion a Chymuned Llanfachraeth wedi galw am ostwng y cyflymder drwy`r Pentref oherwydd gorr-yrru. Wedi dadl ar y mater yn y Senedd.

11. Coeden Nadolig.
    Gair gan Steve Big Wheelers Training.
    Ni fydd yn Cyngor yn cyfranogi mewn materion fel hyn ac mae rhaid bod yn ofalus.
    Cyng G Roberts o`r farn y dylem rhoi cyfraniad at y goeden os bydd yn digwydd.

12. Cyngor Sir Gwynedd.
    Ail wynebu`r A55 (Gwedd 8) Y Fali a Caergeiliog – Cyffordd 3 a 4. Derbyn y wybodaeth.

RHODDION.

13. Dim.

PLWYFOL.

14. Cae Chwarae.
    E bost gan Debbie Dawson yn gofyn beth oedd yn digwydd i`r Cae Chwarae. Wedi deall ar y Facebook ei fod yn cael ei gau i lawr.
    Dywedodd Cyng W G Roberts fod llawer o gwynion am gyflwr y cae. Pobl eisiau grwp bach i dacluso.
    Cyng Llinos Medi wedi neindio i fewn i`r peth. Wedi siarad ac un o`r Cynghorwyr. Pwy ydi`r Cynghorwr??
    Mae y cynnig helpu i sefydlu grwp, croeso mawr iddynt. R`wyn siwr fod ni wedi clywed hyn o`r blaen ond dim cynnydd. (Ni ellir y Cyngor rhoi caniatad i wirfoddolwyr.)
    Mae`r chwyn wedi cael ei torri Geraint Roberts wedi gwneud y gwaith am £100.
    Disgwyl rwan am gael codi y mater rwber a ffensio. Mae y Covid -19 wedi amharu.

MATERION ARIANNOL.

15. RHEDEGOL. £3,381.90. (Archeb 2. £2,691.33)

16. CYNILO. £3,227.70.

17. I`W TALU.
    Clerc £120.00. Geraint Roberts (Torri Glaswellt) Clirio chwyn. 31/8. 14/9 £300.00. Treth Incwm 2. £90.00. Gweinyddu (3mis) £192.35.

Er nad oes cyfarfod yn bodoli made yn rhaid dan reol i dalu ein dyledion. (Disgresiwn Cadeirydd, Clerc)